# Dewis gwarchodwr plant

Nid yw dod o hyd i'r **gofal plant iawn** bob amser yn hawdd.

Dyma rai **awgrymiadau** gan ein harolygwyr: **Awgrymiadau**

1. **Defnyddiwch ein gwefan** – ydy'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda ni? Ebostiwch ni i gael ein adroddiad diweddaraf.
2. **Ewch i'w gweld** – ac ewch â rhestr o gwestiynau, neu gopi o'r adroddiad diweddaraf.
3. **Ewch i weld nifer o leoedd** os gallwch chi.

## Beth i **edrych** amdano:

A yw'r gwarchodwr plant yn rhoi **croeso** i **chi a'ch plentyn**?

A yw'r tŷ yn ddiogel ac yn lân? Os oes gardd, a yw'n ddiogel?

GORFF 2

A yw'n cynnig **'cyfnod ymgyfarwyddo'** er mwyn asesu ai dyma'r gwasanaeth iawn ar gyfer eich plentyn chi?

Z Z Z

Pa ddarpariaeth sydd yno er mwyn i'ch plentyn **gysgu, gorffwys** neu **ymlacio**? A oes **cyfle** ar gyfer **amser tawel**?

Beth yw'r drefn **ddyddiol**?

Pa **gymwysterau** a **phrofiad** sydd gan y gwarchodwr? A yw'n cyflogi staff eraill?

A yw'n cynllunio **amrywiaeth dda** o **weithgareddau** ar gyfer pob grŵp oedran mae'n gofalu amdano?

Beth mae **rhieni eraill** yn ei ddweud am y gwasanaeth?

Beth yw dull y gwarchodwr plant o reoli ymddygiad?

A fydd y gwarchodwr plant yn darparu **prydau bwyd** neu **fyrbrydau**?

Neu fydd rhaid i **chi** eu darparu?

A fydd y gwarchodwr plant yn darparu **opsiynau bwyd iachus** ac yn sicrhau bod gan eich plentyn gyfleoedd ar gyfer **ymarfer corff**?

Bydd gan wefan eich awdurdod lleol hefyd wybodaeth am wasanaethau gofal yn eich ardal chi.


www.arolygiaethgofal.cymru
arolygugofal
@arolygu_gofal
@ciw-agc
care-inspectorate-wales

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**


WG47441